

## Cyngor Cymuned Llanelian (250)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Ionawr 7ed 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths Thomas D Jones Helen Hughes  
Gordon Hayes Glenys Jones Carol Whitaker  
David Gerrard T Elfyn Hughes Cyng Richard Jones  
Cyng Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau: Hefina Williams

### **Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths.**

Croesawyd pawb ar ddechrau blwyddyn newydd, yn enwedig Carol Whitaker sy'n aelod newydd i'r Cyngor.

#### **1 Datgan Diddordeb**

Neb yn datgan diddordeb.

#### **2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

2.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig TD Jones, Eilio Glenys Jones

#### **3 Materion yn Codi**

3.2 Cyfethol Aelodau – Mae John Griffiths wedi ddangos diddordeb ymuno a'r Cyngor i gynrychioli ardal Llanelian. Cefnogwyd ei gais, a gofynnwyd i'r Clerc ei wahodd yn swyddogol i'r cyfarfod nesaf. CET

3.4 Newidiadau i Waharddiadau Parcio – cafwyd cyfarfod gyda Huw Percy ac Elfed Lewis o'r adran briffyrdd i drafod y sefyllfa parcio yn y pentref, yn benodol y newidiadau arfaethiedig i'r amodau parcio yn y gilfan ger y neuadd. Trafodwyd gwahanol opsiynau gyda'r swyddogion ac thafodwyd ymhellach gyda aelodau'r Cyngor.

Cynnigwyd bod llinellau melyn yn cael eu gosod o'r gyffordd tuag at y gilfan, ac hyd at Bodeuddog, ac yna blwch i dri cerbyd parcio gyferbyn a'r gilfan (cyfyngiad o hanner awr). Buasai'r gwaharddiad presennol yn parhau yn y gilfan (2 awr rhwng 8-6 or gloch) ac wrth y post (llinellau melyn). Ar ol peth trafod bydd angen cysylltu a'r adran briffyrdd i gael cadarnhad bod hawl gan bobl anabl parcio tu allan i'r post cyn gwneud unrhyw benderfyniad. CET

Deallpwyd bod cais wedi ei wneud gan Dewi Strawson (Ty Capel Bosra) i allu parcio un cerbyd ger yr ysgoldy o fewn golwg i'r ty ond bod hyn wedi ei wrthod gan yr adran gynllunio. Roedd yr aelodau yn fodlon cefnogi ei gais i barcio oddi ar y ffordd ac yn barod, os oedd angen, i ddarparu llythyr o gefnogaeth. CET

Gobeithia'r aelodau wneud penderfyniad i ddatrys y broblem parcio yn y cyfarfod nesaf.

### **Heb drydan na golau yn pentref, trafodwyd y ceisiadau cynllunio a cafodd y cyfarfod ei ohurio.**

#### **4 Cynllunio (ni fydd y Cynghorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)**

4.1 Swn y Mor, Llanelian – dim sylw CET

4.2 The Barns, Llanelian – dim sylw CET

4.3 Lletroed Fawr, Penysarn – PRYDER - ar ol peth trafodaeth roedd yr aelodau yn bryderus iawn ynglyn a'r cais am y rhesymau canlynol – problemau carffosiaeth, yr angen am dai newydd yn yr ardal, mynedfa i'r safle, newidiadau ir traenio gwynebol a'r posibilrwydd o lifogi. CET

#### **7 Unrhyw Fater Arall**

Fe ofynnodd TD Jones i'r Cynghorwyr Sirol os oes modd edrych am reswm pam nad oedd y lon o Bengorffwysfa at Ysgubor lthal wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir. AMJ  
RJ

#### **8 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf –**

4/2/2014 – bydd cynrychiolydd o Celtic Array yn dod i drafod datblygiadau Fferm Wynt Rhiannon  
4/3/2014 – bydd Lowri Hughes yn dod i drafod ei gwaith yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Mon  
1/4/2014, 13/5/2014, 10/6/2014, 8/7/2014, 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.40yh.